



Cynllun Pwnc Celf a Dylunio

Chwefror 2018

CYMRÆG



Ariennir gan
Lywodraeth Cymru
Funded by
Welsh Government

Cyflwyniad a chyd-destun

Cyd-destun y Cynllun

Ym mis Ionawr 2017 cyhoeddodd y Coleg Cymraeg Cenedlaethol ei ail Gynllun Academaidd. Mae 'Tuag at 2020 a thu hwnt' yn gynllun strategol sy'n gosod egwyddorion, nodau a fframwaith cynllunio ar lefel genedlaethol. Mae hyn yn adeiladu ar y Cynllun Academaidd cyntaf a gyhoeddwyd yn 2012 yn fuan wedi sefydlu'r Coleg <<http://bit.ly/2rtflxT>>

Mae'r Cynllun Pwnc Celf a Dylunio yn gosod yr egwyddorion a'r nodau hynny ar waith ar lefel ddisgyblaethol.

Mewn rhai sefydliadau, mae cyswllt rhwng Celf a Dylunio â meysydd eraill, er enghraifft y Diwydiannau Creadigol a Cherddoriaeth. At ddibenion cynllunio'r Coleg, mae cynlluniau ar wahân wedi eu llunio ar gyfer y meysydd hynny.

Cyd-destun y Pwnc

Mae cwmpas eang o feysydd a disgyblaethau yn syrthio o dan faner Celf, Dylunio a Chelf Gymhwysol, gan gynnwys Celfyddyd Gain, Argraffu, Cerflunio, Cerameg, Gwydr, Paentio, Darlunio, Graffeg, Ffotograffiaeth, Dylunio Cynnyrch, Dylunio Pensaernïol, Dylunio Mewnol, Tecstilau, Ffasiwn, Crefftau, Gwneuthur 3D, Animeiddio a Chyfringau Digidol.

Ni cheir traddodiad hir o ddarpariaeth Celf a Dylunio cyfrwng Cymraeg mewn addysg bellach nac mewn addysg uwch. Mewn un sefydliad, bu addysgu dwyieithog mewn Celf Gain ers deng mlynedd, ond ni cheir tystiolaeth o ddarpariaeth ffurfiol cyfrwng Cymraeg cyn hynny. Dros y blynyddoedd diwethaf, gwelwyd cynnydd yn y gallu a'r awydd i gynnig darpariaeth cyfrwng Cymraeg. Sefydlwyd y Panel Pwnc Celf a Dylunio gan y Coleg Cymraeg yn Hydref 2014 er mwyn cydnabod yn fwy ffurfiol y ddarpariaeth ac adnabod a chymryd cyfleoedd i'w ehangu.

Cynigir cyrsiau gradd israddedig mewn rhai o'r Colegau Addysg Bellach erbyn hyn, gydag ychydig o ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg.

Cynhaliwyd cynhadledd 'O'r Ysgol i'r Radd' dan nawdd y Coleg Cymraeg ym Mehefin 2016 ac adlewyrchir nifer o'r trafodaethau a'r argymhellion a ddaeth o'r gynhadledd honno yn y cynllun hwn. Mae adroddiad llawn a phwyntiau gweithredu'r gynhadledd i'w gweld yma: <<http://bit.ly/2rLChcC>> Un o'r prif ganfyddiadau oedd yr angen am weledigaeth a strategaeth glir gan y Llywodraeth o ran dilyniant cyfrwng Cymraeg o'r ysgol, i Goleg Addysg Bellach ac ymlaen at Addysg Uwch ym maes Celf a Dylunio.

Proses

Mae'r cynllun hwn yn edrych mewn ffordd gyflawn ar Gelf a Dylunio fel pwnc ac yn cynnig llwybrau i ddatblygu'r pwnc ar sail ystod o gwestiynau a fydd yn gymorth i sicrhau addysg uwch o'r radd flaenaf.

Gofynnwyd i brifysgolion gwblhau ffurflen cynllunio pynciol fel cam cyntaf yn y broses o lunio'r Cynllun Pwnc. Pwrpas y ffurflen oedd casglu gwybodaeth gyfredol wrth y prifysgolion am lefel y ddarpariaeth, niferoedd myfyrwyr a lefel staffio ym mlwyddyn academiaidd 2016/17. Mae'r targedau yn y cynllun hwn yn seiliedig ar y wybodaeth honno ac yn gosod nodau uchelgeisiol ond cyraeddadwy o ran datblygiad y maes drwy gyfrwng y Gymraeg am y tair blynedd nesaf a thu hwnt.

Nodwyd heriau penodol mewn un sefydliad o ganlyniad i ailstrwythuro a newid lleoliad y ddarpariaeth yn gyfan gwbl.

Egwyddorion a Themâu

Mae'r egwyddorion a'r themâu a osodwyd yng Nghynllun Academaidd cyntaf y Coleg (2012) yn parhau'n weithredol tra bo'r cynllun newydd (2017) yn canolbwyntio ar y nod o sicrhau y cynigir addysg uwch o'r radd flaenaf i'r myfyrwyr sy'n dewis astudio o leiaf cyfran o'u cwrs drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae profiad y myfyriwr yn greiddiol i'r egwyddor honno.

Strwythur y Cynllun

Mae'r Cynllun Pwnc Celf a Dylunio yn gosod fframwaith ar gyfer y cyfnod 2017/18 hyd at 2022/23. Yma, ceir ystyriaeth lawnach o'r sector ôl-16 yn ogystal ag anghenion y gweithle. Rhoddir mwy o bwyslais ar gyd-destun polisi a'r cyfleoedd a'r heriau sy'n benodol i faes Celf a Dylunio.

Ystyrir bod rhai prifysgolion yn greiddiol i'r Cynllun Pwnc tra bod prifysgolion eraill yn dymuno cyfrannu at weithgareddau cydweithredol ac elwa arnynt ond nad ydynt yn debygol o ddatblygu darpariaeth na sefydlu (nac ychwaith gynyddu) capasiti yn y maes penodol hwn.

Mae proses dyrannu grantiau pynciol y Coleg Cymraeg Cenedlaethol yn dibynnu ar categori'r pwnc yn genedlaethol o fewn y Cynllun Academaidd, blaenoriaethau strategol y prifysgolion unigol a natur y gefnogaeth sy'n parhau o du'r Coleg Cymraeg, e.e. drwy'r Cynllun Staffio. Mae cyfuniad o ffactorau yn effeithio ar ddyraniad grant pynciol a ph'un a ydyw'r prifysgolion yn cwrdd â'r meini prawf a osodwyd gan y Cynllun Academaidd Cenedlaethol. O ran y Cynllun Pwnc Celf a Dylunio, ystyrir bod y ddarpariaeth ym Mhrifysgol Fetropolitan Caerdydd a Phrifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant yn cwrdd â'r meini prawf a osodwyd gan y Cynllun Academaidd cenedlaethol. Ym Mhrifysgol Bangor, mae'r ddarpariaeth yn pontio Celf a Dylunio ac Addysg, ac yn sgil hynny nid yw Prifysgol Bangor yn rhan weithredol o'r panel. Mae Prifysgol Aberystwyth wedi nodi awydd i fod yn rhan o'r cynllun ac unrhyw weithgareddau cydweithredol yn y maes ond nid oes darpariaeth ffurfiol drwy gyfrwng y Gymraeg.

Adolygir ystod y ddarpariaeth a'r lleoliadau astudio yn flynyddol yn unol â meini prawf y Cynllun Academaidd – sef bod o leiaf chwe myfyriwr ym mhob blwyddyn yn astudio drwy gyfrwng y Gymraeg, a bod o leiaf dau aelod o staff academaidd (cyfwerth amser llawn) yn addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg ar gyfer darpariaeth gwerth deugain credyd y flwyddyn, a phedwar aelod o staff academaidd yn addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg ar gyfer darpariaeth gwerth wyth deg credyd y flwyddyn.

Sefyllfa Gyfredol (2016/17)			
Sefydliad Addysg Uwch	Darpariaeth	Staff	Myfyrwyr¹
Prifysgol Metropolitan Caerdydd	O leiaf 40 credyd ar gael ym mhob blwyddyn drwy gyfrwng y Gymraeg ar 12 cwrs BA israddedig.	4 aelod o staff llawn amser yn siarad Cymraeg. 2 aelod o staff yn addysgu'n rhan-amser (1.1 CALI) ac 1 llawn amser drwy gyfrwng y Gymraeg.	O leiaf 6 ym mhob blwyddyn yn astudio drwy gyfrwng y Gymraeg. 102 sy'n gallu siarad Cymraeg yn rhugl BI1–BI3. 81 yn siarad Cymraeg ond heb fod yn rhugl BI1–BI3.
Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant	O leiaf 80 credyd ar gael ym mhob blwyddyn drwy gyfrwng y Gymraeg ar lefel israddedig ac ôl-radd.	4 aelod o staff llawn amser yn siarad Cymraeg. 2 aelod o staff yn addysgu'n rhan-amser ac 1 llawn amser drwy gyfrwng y Gymraeg.	Llai na 6 ym mhob blwyddyn yn astudio drwy gyfrwng y Gymraeg. 115 sy'n gallu siarad Cymraeg yn rhugl BI1–BI3.
<i>Prifysgol Bangor</i>	<i>Cwrs BSc Dylunio Cynnyrch. 120 credyd drwy gyfrwng y Gymraeg.</i>	<i>4 aelod o staff CALI yn addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg.</i>	<i>Llai na 6 ym mhob blwyddyn yn astudio drwy gyfrwng y Gymraeg. 18 o siaradwyr Cymraeg (rhugl a heb fod yn rhugl) BI1–BI3.</i>

¹ Gwybodaeth yn seiliedig ar y data a oedd yn gyfredol yn 2016/17 ac yn gyson gyda'r dull adrodd arferol i HESA.

Datblygu'r maes: patrwm cenedlaethol	
Profiad Myfyrwyr	<p>Yn 2016/17, cyllidodd a chefnogodd y Coleg Cymraeg arddangosfa 'Golwg ar Gelf' lle y cafodd myfyrwyr gyfle i ddangos eu gwaith i gyd-fyfyrwyr ac i'r cyhoedd mewn gwahanol leoliadau: Ysgol Gelf a Dylunio Caerdydd, Academi Gelf Coleg Pen-y-bont a Chynulliad Blynyddol y Coleg Cymraeg ar Gampws y Bae, Prifysgol Abertawe.</p> <p>Mae'r Coleg Cymraeg yn cefnogi'r gweithgareddau canlynol yn 2017/18 er mwyn cynnig profiadau unigryw i fyfyrwyr cyfrwng Cymraeg:</p> <ul style="list-style-type: none"> ▪ Celf a Dylunio ar y MAP (gŵyl i ddwyn ynghyd myfyrwyr Celf a Dylunio cyfrwng Cymraeg, a fydd yn rhedeg ochr yn ochr â Gŵyl MAP i fyfyrwyr theatr a drama); ▪ Parhad ac estyniad o'r prosiect 'Golwg ar Gelf'.
Darlithwyr	<p>Mae angen datblygu mwy o ddarlithwyr sy'n medru darlithio'r pwnc Celf a Dylunio drwy gyfrwng y Gymraeg, ynghyd â chodi lefel sgiliau staff sy'n medru'r Gymraeg ond nad ydynt yn ddigon hyderus i addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg.</p>
Cwricwlwm	<p>Mae integreiddio crefft/hanes Cymraeg mewn cyrsiau (e.e. lliwiau arbennig 'clai') wedi ei adnabod yn flaenoriaeth wrth gynllunio'r cwricwlwm.</p> <p>Mae gwybodaeth ynglŷn â'r byd Celf a Dylunio Cymreig Rhyngwladol yn dechrau cael ei gynllunio ar hyn o bryd fel rhan o gwricwlwm Coleg Celf Abertawe, Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant.</p>
Canlyniadau Myfyrwyr	<p>Mae canlyniadau'r myfyrwyr sy'n astudio yn y Gymraeg yn dangos eu bod nhw'n perfformio gystal â myfyrwyr eraill o fewn eu hadrannau.</p>
Adnoddau	<p>Nodwyd yn y Cynllun Pwnc gwreiddiol (a gyhoeddwyd yn Ebrill 2016) bod diffyg adnoddau cyfrwng Cymraeg yn y maes Celf a Dylunio.</p>

	<p>Mae cynrychiolwyr o'r sector addysg a'r diwydiant hefyd wedi nodi'r angen i greu un man canolog ar gyfer yr adnoddau hynny sydd yn bodoli yn y Gymraeg.</p> <p>Datblygwyd gwefan Llinell Amser <http://www.llinell-amser.co.uk/> dan nawdd y Coleg Cymraeg, sy'n olrhain Celf a Dylunio drwy'r oesoedd.</p> <p>Mae'r Coleg Cymraeg hefyd wedi buddsoddi mewn prosiect 'Cyfaill Celfyddyd', sef e-adnodd a fydd yn gydymaith cyfrwng Cymraeg amlygyfryngol i ddisgyblion chweched dosbarth ac i fyfyrwyr israddedig.</p> <p>Mae angen mwy o adnoddau yn y maes Celf a Dylunio fel Termiadur pynciol, a gwybodaeth am y gweledol, yn enwedig yn y meysydd dylunio.</p>
<p>Cyflogadwyedd (gan gynnwys Galw gan Gyflogwyr)</p>	<p>Mae cynrychiolwyr o'r byd addysg a'r diwydiant wedi nodi'r angen i:</p> <ul style="list-style-type: none"> ▪ greu cymuned o arlunwyr gyda phobl i fod yn barod i wirfoddoli i siarad ag ysgolion/ colegau i esbonio'u crefft a llwyddiant eu gyrfa; ▪ sicrhau profiadau gwaith i'r myfyrwyr mewn amrywiol rolau, e.e. curaduron, arlunwyr, crefftwyr; ▪ defnyddio cyn-fyfyrwyr fel llysgenhadon wrth weithio gydag ysgolion a cholegau addysg bellach; ▪ wella cysylltiadau gyda rhwydweithiau mewn meysydd eraill, e.e. pynciau STEM; ▪ greu cyswllt drwy Bagloriaeth Cymru; ▪ greu Rhwydwaith Diwydiant Celf; ▪ cydweithio'n agosach gydag adran celfyddydau gweledol yr Eisteddfod Genedlaethol er mwyn adnabod tueddiadau a'r cyfleoedd masnachol cyfredol. <p>Yn ôl gwefan Gyrfa Cymru:</p> <p>"Gall hyfforddiant mewn celf a dylunio arwain at sawl math o yrfa heblaw gwaith fel artist cain, crefftwr, dylunydd, neu athro celf yn ogystal â nifer o wahanol swyddi eraill. Mae gan y rhan fwyaf o bobl sy'n gweithio ym maes celf a dylunio gymwysterau Lefel A neu safon gyfwerth o leiaf, ac mae gan nifer ohonynt radd mewn maes arbenigol celf a dylunio.</p>

	<p>Mae 29% o'r gweithlu yn y sector hwn yn siarad Cymraeg, sydd yn uwch na chyfartaledd cenedlaethol demograffig siaradwyr. Mae galw uwch am siaradwyr Cymraeg yn y maes hwn o'i gymharu â meysydd eraill yn gyffredinol.²</p> <p>Mae llawer o bobl â doniau artistig yn defnyddio'u sgiliau i addysgu eraill, mewn ysgol neu goleg efallai. Mae rhai artistiaid yn gweithio y tu ôl i'r llenni yn y theatr neu i gwmnïau cynhyrchu ffilmiau, gan greu setiau, golygfeydd, gwisgoedd a phropiau. Opsiwn arall yw cadwraeth neu adfer gweithiau celf, sy'n golygu diogelu eitemau ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol neu atgyweirio darnau wedi'u difrodi.</p> <p>Hefyd, mae nifer o yrfaeod sy'n ymwneud â chelf. Mae haneswyr celf a/neu ddylunio yn defnyddio eu sgiliau a'u gwybodaeth mewn sawl maes gwahanol, gan gynnwys pensaernïaeth, cadwraeth, ffilm a'r cyfryngau, cyhoeddi, ymchwil ac addysgu. Mae angen iddynt ddeall y technegau a'r deunyddiau a ddefnyddir gan artistiaid a dylunwyr. Mae cyfleoedd hefyd mewn orielau ac amgueddfeydd.³</p> <p>Mae llawer o fyfyrwyr Celf yn mynd ymlaen i fod yn artistiaid proffesiynol ac mae'r byd celfyddydol yn gyfoethog o ran yr iaith Gymraeg a diwylliant Cymreig.</p> <p>Yn ôl ymchwil wedi ei gomisiynu gan Creative Skillset yn 2011 sydd yn edrych ar ofynion sgiliau'r diwydiannau creadigol* yng ngorllewin Cymru, y Cymoedd a gogledd-orllewin Cymru, darganfuwyd bod 19% o fusnesau yn ystyried y Gymraeg yn flaenoriaeth ym maes Ffasiwn a Thecstilau, 30% ym maes Delweddu a 42% ym maes Animeiddio a'r Cyfryngau Rhyngweithiol.⁴</p> <p>* Mae'r diwydiannau creadigol wedi eu diffinio gan 'ôl-troed' Creative Skillset sef: Ffasiwn a Thecstilau, Ffilm ac Animeiddio, Cyfryngau Rhyngweithiol, Delweddu, Cyhoeddi, Radio, Teledu a Chyfleusterau. Mae Cyfeiriadur Celf Cyngor y Celfyddydau yn ffynhonnell ar gyfer chwilio artistiaid, digwyddiadau a chyfleoedd/swyddi ym maes Celf: <http://www.celfcymru.org/celf-yng-nghymru/cyfeiriadur-celf></p>
--	---

² <<https://www.careerswales.com/server.php?show=nav.9048&outputLang=Tr1>>

³ <www.careerswales.com>

⁴ Adroddiad "Immediate skills needs of the Creative Industries in West Wales the Valleys and North West Wales"

<http://creativeskillset.org/assets/0000/5587/Immediate_skills_needs_of_the_Creative_Industries_in_West_Wales_the_Valleys_and_North_West_Wales.pdf>

Cynaliadwyedd (gan gynnwys Dilyniant)

Yn 2014, cytunodd Llywodraeth Cymru i bob un o ddeuddeg argymhelliad adroddiad yr Athro Dai Smith ar arolygiad *Y Celfyddydau mewn Addysg yn Ysgolion Cymru* (2013). Datblygwyd y Cynllun Gweithredu Dysgu Creadigol drwy'r Celfyddydau er mwyn gweithredu'r argymhellion. Mae NAWR yn un o'r rhwydweithiau rhanbarthol sy'n rhoi'r cynllun ar waith <<https://nawr.cymru/cy/dysgu-creadigol/>>. Er nad yw'r cynllun yn hyrwyddo dilyniant o reidrwydd, mae'n sicr yn rhoi pwyslais ar bwysigrwydd y celfyddydau a gallai hyn arwain at annog mwy o ddisgyblion i ddilyn llwybr academaidd ym maes Celf a Dylunio.

Gweler y diagram isod i weld y llwybrau posib i radd addysg uwch.

Darpariaeth Colegau Addysg Bellach

Mae darpariaeth ar lefel Addysg Bellach yn cynnig un llwybr dilyniant, ond mae'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn fylchog ac mae ffurf a natur y ddarpariaeth yn amrywio o le i le. Mae rhai sefydliadau'n cynnig darpariaeth ddwyieithog ym maes Celf a Dylunio, ond eto mae natur y ddarpariaeth ddwyieithog yn gallu amrywio o goleg i goleg (e.e. adnoddau ar gael yn y ddwy iaith, tiwtorialau yn y Gymraeg neu'r Saesneg, ayyb). Gall y ddarpariaeth fod yn ffurfiol neu'n anffurfiol. Mae un sefydliad yn nodi bod canran uchel o fyfyrwyr addysg bellach yn rhugl yn y Gymraeg, gyda rhai unedau yn y cwrs ffasiwn, ynghyd â rhai unedau yn y cwrs Mynediad i Addysg Uwch, yn cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. Yn ogystal, mae nifer o staff Celf a Dylunio yn medru'r Gymraeg – Graffeg, Ffasiwn, Tecstilau, Ffotograffiaeth, Llunio Digidol a Chelf Gain.

**Cwrs Sylfaen mewn Celf a Dylunio
(Foundation Course in Art and Design – Foundation Dip)**

Ym maes Celf a Dylunio, mae hen draddodiad o fyfyrwyr yn mynd o'r ysgol neu Goleg Addysg Bellach i ddilyn cwrs sylfaen Celf a Dylunio yn 18 oed, cyn symud ymlaen i wneud gradd mewn maes penodol. Bwriad y cwrs sylfaen yw rhoi'r cyfle i fyfyrwyr ddarganfod pa agwedd ar Gelf a Dylunio y maent yn ei mwynhau ac yn rhagori ynddi.

Yn draddodiadol hefyd, er yn llai amlwg erbyn hyn, roedd prifysgolion yn mynnu bod pob disgybl ysgol yn dilyn y cwrs sylfaen cyn mynd ymlaen i ddilyn cwrs Addysg Uwch ym maes Celf a Dylunio. Mantais y cwrs sylfaen yw bod myfyrwyr wedi creu sylfaen i'w crefft erbyn diwedd y flwyddyn gyntaf, a'u bod yn sicr o'r maes y maent am arbenigo ynddo. Anfantais cwrs sylfaen i golegau Celf a phrifysgolion yng Nghymru yw bod y myfyrwyr wedi magu hyder ac yn medru dewis unrhyw goleg celf neu brifysgol i barhau gyda'u hastudiaethau. Credir bod llawer o Gymry Cymraeg yn gadael Cymru er mwyn meistrolï eu crefft.

Mae o leiaf un o'r sefydliadau addysg bellach yn cynnig cwrs sylfaen Celf a Dylunio yn ddwyieithog.

Gradd Sylfaen (FdA)

Mae rhan fwyaf y colegau addysg bellach sy'n cynnig darpariaeth Lefel 3 ym maes Celf a Dylunio yn cynnig y cymhwyster uchod hefyd. Lefel 4 a 5 yw'r cwrs a ddarperir mewn partneriaeth rhwng colegau addysg bellach a phrifysgolion. Mae cwrs dwy flynedd yn caniatáu i'r myfyrwyr barhau am flwyddyn bellach (Lefel 6) ar raglen gysylltiedig yn y brifysgol er mwyn ennill cymhwyster gradd israddedig. Nid oes tystiolaeth wedi dod i law o ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg ar hyn o bryd.


Mae un brifysgol yn darparu cwrs Tystysgrif Addysg Uwch (Cert HE), sef blwyddyn gyntaf y Radd Sylfaen.

Ceir cydnabyddiaeth a thystiolaeth bod y niferoedd sy'n astudio Celf a Dylunio drwy gyfrwng y Gymraeg (ar lefel prifysgol) wedi cynyddu oherwydd buddsoddiad y Coleg Cymraeg.

Nodir bod angen mwy o wybodaeth ar ddarpar fyfyrwyr o ran yr hyn y gall y maes Celf a Dylunio ei gynnig, a bod angen newid agweddau cyffredinol tuag at 'werth' y pwnc, gan bwysleisio cyfraniad crefftwyr ac artistiaid at yr economi yng Nghymru. Mae hefyd angen pwyslais ar werth a budd y Gymraeg wrth fynd ati i hyrwyddo'r maes.

Nodir bod angen cymorth i fyfyrwyr a darlithwyr er mwyn codi eu hyder wrth ddefnyddio'r Gymraeg a bod angen gwneud yr iaith yn fwy cyraeddadwy.

Mae myfyrwyr sydd am ddilyn gradd ym maes Celf a Dylunio yn dilyn sawl trywydd:



* Bwriad y math hwn o gwrs yw i fyfyrwyr fagu hyder a meithrin y sgiliau sy'n angenrheidiol i lwyddo mewn addysg uwch. Mae'r myfyrwyr hyn yn draddodiadol yn aros yn y lleoliad y maent eisoes wedi astudio ynddo ac mae rhai prifysgolion / colegau Celf yn rhoi mynediad awtomatig i fyfyrwyr lleol os ydynt wedi llwyddo ar y Cwrs Mynediad.

** Mae ystod o gyrsiau ar gael mewn colegau addysg bellach, sy'n cynnwys lefel addysg uwch.

Blaenoriaethau cynllunio cenedlaethol			
Nod gweithredu	Targedau blwyddyn (2017/18)	Targedau 3 mlynedd (2019/20)	Targedau 5 mlynedd (2021/22)
1. Lefel Darpariaeth	Cynnal y ddarpariaeth bresennol.	Un sefydliad yn cynnig o leiaf 40 credyd ym mhob blwyddyn drwy gyfrwng y Gymraeg. Un sefydliad yn cynnig rhwng 40 ac 80 credyd ym mhob blwyddyn drwy gyfrwng y Gymraeg.	Un sefydliad yn cynnig o leiaf 40 credyd ym mhob blwyddyn drwy gyfrwng y Gymraeg. 2 sefydliad yn cynnig o leiaf 80 credyd ym mhob blwyddyn drwy gyfrwng y Gymraeg.
2. Niferoedd Darlithwyr	Cynnal y nifer presennol. O leiaf 6 aelod staff (heb fod yn CALI).	O leiaf 6 aelod staff (heb fod yn CALI).	O leiaf 8 aelod staff (heb fod yn CALI).
3. Nifer Myfyrwyr (noder bod y targedau sefydliadol yn nodi 'o leiaf', felly ychwanegir rhywfaint at y targed cenedlaethol.)	40 o fyfyrwyr yn astudio rywfaint drwy gyfrwng y Gymraeg.	60 o fyfyrwyr yn astudio rywfaint drwy gyfrwng y Gymraeg.	75 o fyfyrwyr yn astudio rhywfaint drwy gyfrwng y Gymraeg.
4. Profiad Myfyrwyr (a Darlithwyr)			
i) Cynnig cyfleoedd i arddangos gwaith fel	Cynnal arddangosfeydd 'Golwg ar Gelf'	Cynnal arddangosfeydd 'Golwg ar Gelf'	Cynnal arddangosfeydd 'Golwg ar Gelf'

<p>rhan o weithgaredd gydweithredol yn flynyddol.</p> <p>ii) Cynnig cyfleoedd i fyfyrwyr ddod at ei gilydd i rannu gwaith a phrofiadau, i gael mynediad at artistiaid a dylunwyr, ac i greu cymuned gelfyddydol cyfrwng Cymraeg i fyfyrwyr.</p>	<p>Cynnal gweithgaredd gydweithredol 'Celf a Dylunio ar y MAP' (neu arall).</p>	<p>Cynnal gweithgaredd gydweithredol 'Celf a Dylunio ar y MAP'.</p>	<p>Cynnal gweithgaredd gydweithredol 'Celf a Dylunio ar y MAP'.</p>
<p>5. Adnoddau</p>	<p>Cyhoeddi a hyrwyddo 'Cyfaill Celfyddyd' (allbwn Prosiect Strategol).</p> <p>Ychwanegu deunydd a pharhau i hyrwyddo Llinell Amser.</p>	<p>Gwerthuso, diweddarau ac addasu y 'Cyfaill Celfyddyd'.</p> <p>Gwerthuso gwefan Llinell Amser a phenderfynu ar ddyfodol yr adnodd.</p>	<p>Adnabod ac ymateb i alw am ddeunyddiau ac adnoddau priodol a chyflwyno ceisiadau i gronfeydd nawdd.</p> <p>Yn ddibynnol ar y gwerthusiad a phenderfyniad ynghylch dyfodol yr adnodd.</p>
<p>6. Dilyniant</p> <ul style="list-style-type: none"> ▪ Rhwydweithio ▪ Hyrwyddo'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg 	<p>Cynnal digwyddiad/cynhadledd fel dilyniant i'r gynhadledd 'O'r Ysgol i'r Radd' yn 2015/16 gyda chyllid o ffynhonnell allanol.</p> <p>Swyddog Pwnc i gydweithio gyda Thîm Cyfathrebu'r Coleg a'r panel pwnc i greu a dosbarthu adnodd penodol ar gyfer athrawon a'r</p>	<p>Cynhadledd flynyddol.</p> <p>Proses barhaus o werthuso a mireinio'r adnodd.</p>	<p>Cynhadledd flynyddol.</p> <p>Proses barhaus o werthuso a mireinio'r adnodd.</p>

<ul style="list-style-type: none"> ▪ Codi hyder yn y Gymraeg (myfyrwyr a darlithwyr) 	<p>sector addysg bellach (fel rhan o'r 'Cyfaill Celfyddyd').</p> <p>Swyddogion Cangen i sicrhau bod y TSI yn cael ei hysbysebu'n eang (y tu hwnt i ddeiliaid ysgoloriaethau).</p> <p>Swyddogion Cangen i ymchwilio i anghenion ieithyddol y staff a darganfod unrhyw gyfleoedd ar gyfer cyrsiau gloywi iaith, ayyb.</p>	<p>Swyddogion Cangen i sicrhau bod y TSI yn cael ei hysbysebu'n eang (y tu hwnt i ddeiliaid ysgoloriaethau).</p> <p>Yn ddibynnol ar y galw ac ymrwymiad y brifysgol i wella hyfedredd ieithyddol y darlithwyr.</p>	<p>Swyddogion Cangen i sicrhau bod y TSI yn cael ei hysbysebu'n eang (y tu hwnt i ddeiliaid ysgoloriaethau).</p> <p>Yn ddibynnol ar y galw ac ymrwymiad y brifysgol i wella hyfedredd ieithyddol y darlithwyr.</p>
---	---	--	--

Datblygu'r maes: targedau sefydliadol				
Sefydliad	Nod gweithredu	Targedau blwyddyn (2017/18)	Targedau 3 mlynedd (2019/20)	Targedau 5 mlynedd (2021/22)
Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant	Dilyn y penawdau yn y tabl uchod:			
	Lefel Darpariaeth	O leiaf 40 credyd ar gael ym mhob blwyddyn drwy gyfrwng y Gymraeg.	Rhwng 40 credyd ac 80 credyd ar gael ym mhob blwyddyn drwy gyfrwng y Gymraeg.	O leiaf 80 credyd ar gael ym mhob blwyddyn drwy gyfrwng y Gymraeg.
	Niferoedd Darlithwyr	O leiaf 3 aelod staff (heb fod yn CALI).	O leiaf 3 aelod staff (heb fod yn CALI).	O leiaf 4 aelod staff.
	Nifer Myfyrwyr	O leiaf 6 ym mhob blwyddyn.	O leiaf 8 ym mhob blwyddyn.	O leiaf 10 ym mhob blwyddyn.
Prifysgol Metropolitan Caerdydd	Lefel Darpariaeth	O leiaf 40 credyd ar gael ym mhob blwyddyn drwy gyfrwng y Gymraeg.	O leiaf 40 credyd ar gael ym mhob blwyddyn drwy gyfrwng y Gymraeg.	O leiaf 80 credyd ar gael ym mhob blwyddyn drwy gyfrwng y Gymraeg.
	Niferoedd Darlithwyr	O leiaf 3 aelod staff (heb fod yn CALI).	O leiaf 3 aelod staff (heb fod yn CALI).	O leiaf 4 aelod staff.
	Nifer Myfyrwyr	O leiaf 10 ym mhob blwyddyn.	O leiaf 13 ym mhob blwyddyn.	O leiaf 15 ym mhob blwyddyn.